# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia

Cofnodion: Mehefin 2019

## Sesiwn dystiolaeth ymchwiliad i ofal sylfaenol

Dydd Mawrth 11 Mehefin 2019, 12-1.30pm
Ystafelloedd cynadledda 4 a 5, Tŷ Hywel
Cyswllt fideo - Swyddfa'r Cynulliad Cenedlaethol, Bae Colwyn
Cadeirydd: Lynne Neagle AC

Yn bresennol: Lynne Neagle AC (Cadeirydd), Dr Dai Lloyd AC

Sophie Douglas, Huw Owen, Sue Phelps (Cymdeithas Alzheimer Cymru), Linda Willis, Ceri Higgins, Dr Katie Featherstone (Prifysgol Caerdydd), Valerie Billingham (Age Cymru), Nicola Davis-Job, Lisa Turnbull (Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru), Gwyneth Sweatman (Marie Curie), Dr Rosslyn Offord (Cymdeithas Seicolegol Prydain), Suzanne Duval (Diverse Cymru), Jayne Goodrick, Chris Roberts, Monica Reardon (Marie Curie), Dr Andy Northcott, Dr Jane Harden, Ray Morrison (Bluebird Care) , Irina Erchovaia, Meryl Randell-Jones, Jackie Askey, Dr Sofia Vougioukalou

Agorodd **Lynne Neagle AC** y cyfarfod a diolchodd i bawb am ddod.

Rhoddodd **Sophie Douglas** y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad i ofal ysbyty hyd yn hyn a’r cynllun ar gyfer y camau nesaf:

- Mae arolwg ar-lein yn casglu barn unigolion ledled Cymru. Rydym wedi cael dros 200 o ymatebion gan bobl. Mae cymysgedd o'r rhai yr effeithir arnynt gan ddementia a phobl sy'n gweithio mewn ysbytai wedi ymateb a rhannu eu profiadau.

- Mae'r arolwg yn dal ar agor a bydd yn cael ei hyrwyddo eto yn y cyfryngau i annog mwy o ymatebion gan unigolion ledled Cymru.

- Bu pedair trafodaeth bord gron gyda phobl yr effeithir arnynt gan ddementia, gwirfoddolwyr a gweithwyr proffesiynol, a gynhaliwyd gan Aelodau'r Cynulliad:

  - Pont-y-pŵl - Lynne Neagle AC
  - Casnewydd - Jayne Bryant AC
  - Wrecsam - Mark Isherwood AC
  - Llangefni - Rhun ap Iorwerth AC

- Mae Cymdeithas Alzheimer Cymru yn cynnal nifer o sesiynau tystiolaeth gyda sefydliadau proffesiynol i glywed profiadau'r rhai sy'n gweithio ym mhob rhan o’r sector iechyd.

- Bydd y dystiolaeth a gesglir drwy gydol y broses hon yn cael ei dadansoddi a'i rhoi mewn adroddiad yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.

- Rydym yn rhagweld y bydd canfyddiadau dros dro yn cael eu trafod yn yr hydref, gydag adroddiad llawn yn cael ei lansio ddiwedd yr hydref neu yn ystod y gwanwyn.

Amlinellodd **Lynne Neagle AC** y cynllun ar gyfer y sesiwn dystiolaeth a chroesawodd **Linda Willis** a **Ceri Higgins** a fyddai'n gofyn y cwestiynau i'r panel.

*nodwch fod y cofnodion hyn yn adrodd ar y cwestiynau a'r atebion a roddir ar ffurf nodiadau ac nid ydynt yn drawsgrifiad llawn - bydd atebion ysgrifenedig i gwestiynau yn cael eu darparu gan y panel i gyd-fynd â'r cofnodion *

**Cwestiwn 1:** Beth sydd angen ei newid o ran hyfforddiant i staff ysbytai?

**Dr Katie Featherstone**

- Nid nyrsys yn unig sydd angen hyfforddiant
- Mae pobl sy'n byw gyda dementia yn boblogaeth allweddol mewn ysbytai
- Mae angen hyfforddiant ac arweinyddiaeth
- Mae nyrsys yn arweinwyr ar y ward

**Valerie Billingham**

- Yn seiliedig ar adborth gan bartneriaid lleol, lluniodd Age Cymru adroddiad 'Aros ar fy nhraed', sy'n ehangach nag atal cwympiadau yn unig
- Roedd elfen gref o adborth ar hyfforddiant amlddisgyblaethol a staff cartrefi gofal yn nodi bod ganddynt wybodaeth na fanteisir arni gan eu bod yn adnabod y cleifion yn dda. Gellir rhannu'r wybodaeth honno'n fwy cynhyrchiol rhwng cartrefi gofal ac ysbytai
- Nid yw hyfforddi un person allweddol ar y ward yn ddigonol - yn ddelfrydol dylid hyfforddi staff y ward gyda'i gilydd

**Lisa Turnbull**

- O ran nyrsys cofrestredig, y peth cyntaf i edrych arno yw'r cwrs gradd - mae'n werth ystyried ei gynnwys, argymell ysgrifennu at y prif swyddog nyrsio
- Yr ail bwynt yw sut mae addysg yn cyrraedd nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd ar ôl iddynt gael eu cyflogi
- Mae mynediad at hyfforddiant yn broblem. Mae byrddau iechyd yn amharod i ganiatáu amser i staff hyfforddi gan fod yn rhaid iddynt ariannu'r ôl-lenwi ar y ward. Nid yw byrddau iechyd yn cyflogi digon o staff nyrsio i ganiatáu hyfforddiant nac yn ei gefnogi
- Cytuno bod arbenigedd yn bodoli mewn cartrefi gofal. Cyfeiriwyd at ddogfen Triongl Gofal a ddatblygwyd gan y Coleg Nyrsio Brenhinol ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr. Mae'r offeryn asesu hwn yn caniatáu i staff, cleifion a gofalwyr asesu gofal gyda'i gilydd ac mae ar gael yn Gymraeg
- Ystyried y Gymraeg hefyd - mae angen gweithio i annog pobl i ddefnyddio eu Cymraeg, waeth beth yw eu hyfedredd

- Mae dod i gysylltiad â DPP yn hanfodol

**Nicola Davies-Job**

- Mae pobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia eisiau staff profiadol, addysgedig sydd ag *amser* i ofalu
- Egwyddorion SPACE:
    - *Staff who are skilled and have time to care. 2) Partnership working with carers. 3) Assessment and early identification. 4) Care that is individualised. 5) Environments that are dementia friendly*

**Cwestiwn 2:** Ble ydych chi'n gweld bylchau neu le i wella hyfforddiant staff ysbytai?

**Dr Katie Featherstone**

- Mae Ffrindiau Dementia yn ddechrau da ond nid yw'n ddigon manwl. Mae'n cael ei ddefnyddio fel ymarfer 'blwch ticio'
- Oherwydd bod hyfforddiant wedi'i rannu'n adrannau, dim ond nyrsys iechyd meddwl sy'n cael hyfforddiant cynhwysfawr - mae angen yr hyfforddiant ar nyrsys oedolion
- Mae nyrsys dan hyfforddiant yn nodi nad ydynt yn teimlo'n barod

**Lisa Turnbull**

- Mae'r cwricwlwm cyn-gofrestru yn cael ei newid, felly mae hon yn adeg dda i edrych arno
- Y brif broblem gyda mynediad at DPP unwaith y byddwch mewn cyflogaeth yw *amser* i'w wneud. Nid yw byrddau iechyd yn cefnogi hyn
- Mae aelodau'n ei chael hi'n anodd hyd yn oed i gael egwyl i fynd i'r toiled neu i gael diod
- Monitro a blaenoriaethu mynediad at DPP
- Y peth gorau yw cyfeirio at hyfforddiant ac *addysg* yn hytrach na 'hyfforddiant' - Mae gan hwn gyd-destun ehangach. Mae hyfforddiant yn cyfeirio at ddysgu tasg i rywun mewn ffordd benodol tra bod addysg yn ymwneud â'r ddealltwriaeth a'r wybodaeth y tu ôl i pam mae rhai dulliau'n fwy addas a'r gallu i farnu sut a phryd i ddefnyddio dulliau

**Valerie Billingham**

- Yn cefnogi'r sylw am 'addysg' - mae'n ymwneud â 'chodi ymwybyddiaeth'
- Mae teuluoedd yn pledio ar staff i gyfathrebu â nhw
- Mae diwylliant yn mynnu nad yw'r staff yn hysbysu'r teulu
- Nid yw cartrefi gofal yn gwybod yn iawn beth sy'n digwydd i gleifion wrth gael eu derbyn i ysbyty
- Mae angen parch proffesiynol gan y naill at y llall rhwng cartrefi gofal ac ysbytai
- Mae'n bwysig bod cartref gofal yn cael ei drin fel *cartref* y preswylwyr

**Nicola Davies-Job**

- Mae angen i ni ddysgu'r gwersi o'r adroddiad *Ymddiried mewn Gofal* a oedd yn argymell gwneud e-ddysgu yn orfodol

[Sylw gan **Chris Roberts** - Nid yw e-ddysgu yn ddigonol. Mae myfyrwyr yn nodi mai clywed yn uniongyrchol gan bobl yr effeithir arnynt gan ddementia yw’r rhan fwyaf effeithiol o’u hyfforddiant]

Cwestiynau penodol i **Age Cymru**

**Cwestiwn 1** - Rydych yn nodi yn eich tystiolaeth ysgrifenedig, pe bai pobl â dementia yn cael eu cefnogi i adael yr ysbyty wythnos ynghynt nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd, y gellid sicrhau arbedion sylweddol ar draws y system gyfan. Ble hoffech chi weld yr arbedion hynny’n cael eu buddsoddi?

**Valerie Billingham**

Mae pedwar maes:

1. Rhyddhau amser staff
    a. Ni chyflawnir lefel sylfaenol o ofal o hyd - mae angen amser i ddarparu urddas, hydradiad a maeth
2. Asesiad o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
    a. Cyfraddau diagnosis gwell
    b. Ysbytai fel pwynt mynediad ar gyfer diagnosis ac asesiad
3. Mwy o gefnogaeth i ofalwyr a staff gofal
    a. Mae'r GIG yn cydnabod bod gofal yn digwydd yn y teulu
4. Adnoddau ar gyfer atal

**Cwestiwn 2** - A oes gennych unrhyw enghreifftiau o'r gwasanaethau cymunedol priodol yr ydych yn cyfeirio atynt?

**Valerie Billingham**

Un enghraifft yw prosiect Madeline yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro sy'n ymgorffori tair uned meddygon teulu a thair prifysgol, gan ffurfio model newydd

Cwestiynau penodol i **Goleg Brenhinol Nyrsio Cymru**

**Cwestiwn 1** - Rydych yn nodi yn eich tystiolaeth ysgrifenedig bod BIP Betsi Cadwaladr wedi'i benodi i rôl Ymgynghorydd Nyrsio Dementia yn 2012. A oes gennych unrhyw enghreifftiau o sut mae hyn wedi gwella canlyniadau i gleifion yr effeithir arnynt gan ddementia yn ardal y bwrdd iechyd?

**Nicola Davies-Job**

- Bu gostyngiad yn gyffredinol yn nifer y nyrsys ymgynghorol
- Dim ond 22 ledled Cymru
- Mae eu disgrifiadau swydd yn mapio 5 piler ymarfer
- Pedair gwaith yn llai o bobl yn gwneud ymchwil i mewn i ddementia nag i gyflyrau cardiaidd a chanser
- Argymell gwthio am fwy

**Cwestiwn 2** - Rydych yn nodi yn eich tystiolaeth ysgrifenedig mai rhwystr sylweddol i'r staff rheng flaen sy'n datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth yw pwysau gweithlu. A oes gennych unrhyw enghreifftiau o sut mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 wedi lleddfu pwysau gweithlu?

**Lisa Turnbull**

- Mae'r pwysau'n ddwys
- Nid yw Cymru'n cyhoeddi data ar swyddi gwag. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn amcangyfrif bod o leiaf 1,500 o swyddi nyrsio gwag yng Nghymru heddiw
- Hefyd, bob wythnos, mae'r oriau ychwanegol a weithir gan nyrsys presennol yn gyfystyr â 1,000 awr arall o waith
- Mae swm anhygoel yn cael ei wario ar nyrsys asiantaeth
- Dyma'r rhwystr mwyaf i ofal o ansawdd uchel
- Dyna'r rheswm dros ymgyrch y CNB dros ddeddfwriaeth staffio diogel. Mae'r CNB yn edrych ar dystiolaeth nawr, gan weithio tuag at adroddiad interim ym mis Gorffennaf 2019, gydag adroddiad terfynol i'w gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2019
- Mae'n amlwg bod byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru wedi gwneud mwy o waith ar eu cynllun gweithlu ar gyfer nyrsio mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth hon
- Awgrymodd y dylai'r ymchwiliad trawsbleidiol ystyried a allai diwygio canllawiau statudol a chanllawiau gweithredol fod yn ddefnyddiol gan fod y rhain yn nodi sut i gyfrif lefel aciwtedd ar y ward a sut i ymateb i hynny, yn ogystal â holi a ydynt yn ystyried pobl sy'n byw gyda dementia yn benodol - argymell siarad ag arweinydd rhaglen staffio diogel Llywodraeth Cymru.

Cwestiynau penodol i **Dr Katie Featherstone**

**Cwestiwn 1** - Pa agweddau ar ddiwylliant/arfer ward y gellid eu newid i wella canlyniadau i gleifion â dementia?

- Amserlenni a gwaith yn seiliedig ar dasgau cyfyngedig, ar gyflymder uchel – nid oes awgrym y gall staff dorri ar draws amserlen, tensiwn bod amserlenni yn 'gor-redeg'
- Mae angen i'r ffordd y caiff ei ddylunio a'i ddarparu newid
- Mae targedau e.e. atal cwympiadau / briwiau pwyso yn fetrigau bras iawn sy'n arwain at ddiwylliant o ynysu ac atal corfforol
- Mae'n mynd yn ôl at yr angen am arweinyddiaeth ward
- Angen symud o dasgau cyflym i 'beth sydd ei angen ar ein cleifion?'

[Sylw gan **Nicola Davis-Job** - wedi dod ar draws nyrs yn crio oherwydd nad oedd digon o staff i ganiatáu cleifion i ddod allan o'u gwlâu yn ddiogel]

[Sylw gan **Lisa Turnbull** - mae'n dod yn ôl at ddiogelwch a chael digon o bobl]

**Cwestiwn 2** - Rydych yn nodi yn eich tystiolaeth ysgrifenedig 'mae angen sylweddol am hyfforddiant ac ymyriadau ar sail tystiolaeth i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a staff ward.' Beth fyddech chi'n ei awgrymu y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi hyfforddiant ac ymyriadau ar sail tystiolaeth?

- Mae ymyriadau bach y mae ysbytai yn eu hystyried yn 'beth da' yn aml yn adweithiol iawn, e.e. gofal 1-1 gwell. Mae hyn yn arwain at staff asiantaeth yn dod i mewn ac yn canolbwyntio ar atal yn gorfforol

**Cwestiwn agoriadol**

Gwahoddodd **Lynne Neagle AC** gwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd.

**Jayne Goodrick**

- Y prif beth yw cyfathrebu
- Nid yw e-ddysgu yn rhoi digon o wybodaeth - dylem ddefnyddio arbenigedd y bobl yr effeithir arnynt gan ddementia
- Ymateb i'r CNB - nid dim ond sicrhau bod dŵr yno, mae angen help i yfed mewn gwirionedd
- E.e. gwelodd ddynes wedi'i chlymu i'w gwely er ei diogelwch ei hun. Parhaodd y staff i'w chlymu pan gododd, heb ofyn *pam* roedd hi'n codi - p'un a oedd hi angen diod neu ddefnyddio'r toiled er enghraifft
- Pobl â dementia yn cael eu hanwybyddu er eu bod yn gallu cyfathrebu

**Lisa Turnbull**

- Diolch am y pwynt – er eglurder, roedd y nyrsys dan bwysau felly roeddent yn dychwelyd i ddull sy'n seiliedig ar dasgau – e.e. a oes gan bawb wydraid o ddŵr

**Nicola Davies-Job**

- Roedd yr uwchgynhadledd arweinyddiaeth eleni ar ofal tosturiol a gofal unigol

**Dr Katie Featherstone**

- Cefnogi pwynt Jayne
- Seiliedig ar dystiolaeth - yn digwydd yn systematig ar draws ein holl wardiau
- Mae gofal ymataliaeth yn fater enfawr arall - ni roddir mynediad at ystafell ymolchi i bobl
- Symudedd - mae cynnal sgiliau yn hanfodol
- Maeth - mae staff yn labelu llestri cleifion (e.e. mae angen eu bwydo)

**Suzanne Duval**

- Beth am gleifion sy'n siarad ieithoedd eraill? E.e. BSL

**Lisa Turnbull**

- Cefnogi'r pryder hwnnw - dylid gofyn y cwestiwn i fyrddau iechyd lleol. Dylent edrych ar anghenion yn y cynllun gweithlu
- Ni ddyluniwyd ysbytai yn wreiddiol fel llefydd i ofalu am bobl, dim ond ar gyfer gweithdrefnau meddygol penodol

**Dr Katie Featherstone**

- Mae'n bwysig ystyried croestoriadoldeb hunaniaeth - mae'r ward yn ficrocosm o ddiwylliant ac mae ymchwil yn dangos bod unigolion yn cael profiadau gwaeth

**Ray Morrison**

- Cartrefi gofal - mae gennym ofalwyr staff yng nghartrefi pobl
- Hefyd mae gennym gyfoeth o brofiad a gwybodaeth - ffynhonnell dda i gynorthwyo dull amlddisgyblaethol e.e. gydag fferyllwyr, therapyddion galwedigaethol ac ati
- Mae gan rai o'n gofalwyr fynediad at gyrsiau nyrsio - mae ganddynt brofiad o ofal cymdeithasol eisoes
- Beth am nyrsys yn gwneud rhywfaint o hyfforddiant gyda gweithwyr gofal cymdeithasol?
- Mae angen i bawb wneud Ffrindiau Dementia fel lefel sylfaenol o ddealltwriaeth

**Jackie Askey**

- Bu farw ei gŵr yn yr ysbyty trwy gamddiagnosis o 'ddementia cam olaf' - roedd ganddo lindag y geg
- Mae hanfodol bod ysbytai'n gwrando ar ofalwyr
- Addysgu meddygon yn ogystal â nyrsys
- Wedi ennill cystadleuaeth gyda chynnig - mae pawb sy'n mynd at ochr y gwely yn cynnig diod i'r claf

**Nicola Davies-Job**

- Prosiect tebyg o'r enw peilot 'ychwch ddiferyn' yng Nghwm Taf

**Jackie Askey**

- Nid oedd ganddo unrhyw ysgogiad ar y ward. Darparais radio a des i mewn a darganfod ei fod wedi'i thiwnio i orsaf hollol amhriodol i'm gŵr - roedd y staff wedi ei thiwnio i orsaf o'u dewis

**Chris Roberts**

- Roedd y gwahaniaeth rhwng dementia a deliriwm yn aml yn cael ei gamddeall
- Bellach mae gan bobl â dementia lais cryfach nag erioed

**Ceri Higgins**

- Fe wnes i addysgu fy hun i ddeall mwy am ddementia a helpu fy nhad
- Ar y cwrs gradd dylid hyfforddi pawb mewn dementia

**Linda Willis**

- Wedi bod i dri ysbyty gwahanol mewn dau fis a heb weld un person yn gwisgo bathodyn Ffrindiau Dementia - mae gweld y bathodyn yn gwneud gwahaniaeth mawr
- Adborth cadarnhaol - wedi cael gweithdrefn meddygol ddoe, roedd hi'n 90 munud yn hwyr, ond roedd y nyrsys yn wych

Diolchoch **Lynne Neagle AC** i'r panel a chadarnhau y bydd y grŵp trawsbleidiol yn ysgrifennu at bob sefydliad gyda chwestiynau pellach nad ydym wedi'u cynnwys yn y sesiwn dystiolaeth.

Cynigodd **Lisa Turnbull** gefnogaeth y CNB fel cynghreiriad yn ystod y camau nesaf

**Unrhyw fater arall**

Cadarnhaodd **Lynne Neagle AC** y bydd yn cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia

**Cyfarfodydd yn y dyfodol**

Dydd Mawrth 8 Hydref 2019 - CCB (bydd angen ethol / ailethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd)

Dydd Mawrth 3 Rhagfyr 2019

Dydd Mawrth 3 Mawrth 2020

Dydd Mawrth 19 Mai 2020

Pob un am hanner dydd - 1.30pm yn y Pierhead